# Canllawiau anifeiliaid hela gwyllt

Rheoliadau hylendid ar gyfer cyflenwi anifeiliaid hela i'w bwyta gan bobl.

## Dogfen ganllaw anifeiliaid hela gwyllt

Mae'r canllawiau anifeiliaid hela gwyllt yn berthnasol i’r canlynol:

- Cynhyrchwyr cynradd (er enghraifft, helwyr, aelodau o bartïon hela, ystadau saethu)
- Gweithredwyr busnesau bwyd
- Swyddogion Gorfodi:  Awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, Cynghorau Dosbarth yng Ngogledd

Ceir gwybodaeth ychwanegol am wahanol sefyllfaoedd cyflenwi yn y canllawiau.

Pwysig

### Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau’r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â’r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â’r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau’r ASB sydd ag ‘UE’ neu ‘CE’ yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny’n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at ‘Gyfraith yr UE a Ddargedwir’ neu ‘REUL’ fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy’n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am Fframwaith Windsor ar gael ar GOV.UK.

Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a’r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae’r Fframwaith yn darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi’u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).

Gallwch ddarllen y ddogfen ganllaw ar anifeiliaid hela gwyllt yma.

### Gofynion cyfreithiol

**Rheolau hylendid penodol sy’n gymwys i fusnesau sy’n cynhyrchu bwyd sy’n dod o anifeiliaid,** a nodir yn:

- Rheoliad a gymathwyd (CE) Rhif 853/2004 ym Mhrydain Fawr
- Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yng Ngogledd Iwerddon

Rheolau cyffredinol mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir eu bwyta gan bobl, a nodir yn:

- Rheoliad a gymathwyd (CE) Rhif 1069/2009 ym Mhrydain Fawr
- Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 yng Ngogledd Iwerddon

**Gofynion cyffredinol ar gyfer hylendid bwydydd sy'n gymwys i bob busnes bwyd, gan gynnwys cynhyrchwyr cynradd,** a nodir yn:

- Rheoliad a gymathwyd (CE) Rhif 852/2004 ym Mhrydain Fawr
- Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 yng Ngogledd Iwerddon

**Rheolau ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion a gweithredoedd cysylltiedig,** a nodir yn:

- Rheoliad (UE) a gymathwyd Rhif 2017/625 ym Mhrydain Fawr
- Rheoliad (UE) Rhif 2017/625 yng Ngogledd Iwerddon

**Egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd a gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd, gan gynnwys olrhain bwyd a bwyd anifeiliaid,** a nodir yn:

- Rheoliad a gymathwyd (CE) Rhif 178/2002 ym Mhrydain Fawr
- Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 yng Ngogledd Iwerddon

## Anifeiliaid hela gwyllt

Yn y ddeddfwriaeth, diffinnir anifeiliaid hela gwyllt fel:

- carnolion a lagomorffau gwyllt, yn ogystal â mamaliaid tir eraill sy'n cael eu hela i'w bwyta gan bobl ac a ystyrir yn anifeiliaid hela gwyllt o dan y gyfraith berthnasol

## Carnolion gwyllt

Mae carnolion gwyllt yn famaliaid tir a gaiff eu hela i'w bwyta gan bobl.

Gall y rhain gynnwys:

- carnolion fel ceirw gwyllt
- baeddod gwyllt
- rhai poblogaethau defaid a geifr gwyllt

## Lagomorffiaid

Mae lagomorffiaid gwyllt yn famaliaid tir a gaiff eu hela i'w bwyta gan bobl.

- cwningod
- sgwarnogod
- cnofilod (er enghraifft, gwiwerod)

## Adar gwyllt

Adar gwyllt yw’r rheiny a gaiff eu hela i’w bwyta gan bobl. Enghraifft o hyn yw ffesant sydd wedi’i ddeor/magu mewn amgylchiadau wedi’u rheoli cyn ei ryddhau i’r gwyllt i’w hela.

## Canllawiau anifeiliaid hela gwyllt (ffotograffau)

Mae'r canllawiau anifeiliaid hela gwyllt (ffotograffau) yn rhoi enghreifftiau o arfer da a gwael. Mae’r wybodaeth yn y ddogfen yn cwmpasu’r canlynol:

- croeshalogi
- dulliau cludo da a gwael
- dulliau storio gwael
- storio helgig mewn oergell
- bwtrïoedd helgig
- datganiadau unigolion cymwys
- anifeiliaid hela gwyllt yn eu plu, wedi'u pluo a pharod i'w coginio

### England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Canllawiau anifeiliaid hela gwyllt (ffotograffau) (Saesneg yn unig) as PDF(Open in a new window) (387.59 KB)

## Datganiad unigolyn cymwys

Mae’n rhaid i unrhyw garcasau a gymerir i/a godir gan Sefydliad Trin Helgig Cymeradwy (AGHE) gael archwiliad cychwynnol gan unigolyn cymwys.

Mae’n rhaid atodi datganiad at y carcasau, ni waeth pwy a saethodd y carw.

Mae’n rhaid i’r datganiad hwn gynnwys gwybodaeth am canlynol:

- rhywogaeth
- rhyw
- dyddiad
- pryd a lle y’i saethwyd
- rhif adnabod

Hefyd, mae’n rhaid cynnwys datganiad er mwyn disgrifio unrhyw nodweddion a ganfuwyd, a gall y datganiad hefyd gynnwys:

- unrhyw ymddygiad anarferol
- nodweddion y carcas
- halogiad amgylcheddol

Mae’n rhaid i unigolyn cymwys lofnodi’r datganiad hwn.